## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN MAMHEILAD I GYLCHFAN COURT FARM, PONT-Y-PŴL, TORFAEN) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r gweithlu a'r cyhoedd i ganiatáu ar gyfer cynnal gwaith hanfodol i archwilio a gosod arwyneb newydd ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Mamheilad a Chylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith neu gan y gwasanaethau brys, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4042 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall hefyd yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

ii) gwahardd pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4042 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

iii) gosod terfyn cyflymder 50 mya a 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A4042 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

iv) gosod terfyn cyflymder 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A4042 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Medi 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiadau dros dro,y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos o 20:00 o'r gloch ar 16 Medi 2026 hyd 06:00 o'r gloch ar 30 Medi 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

## THE A4042 TRUNK ROAD (MAMHILAD ROUNDABOUT TO COURT FARM ROUNDABOUT, PONTYPOOL, TORFAEN) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary due to the likelihood of danger to the workforce and public to allow for essential investigation and resurfacing being undertaken on or near the A4042 trunk road between Mamhilad Roundabout and Court Farm Roundabout, Pontypool, Torfaen.

The effect of the Order will be to temporarily;

i) prohibit all vehicles, other than those being used for the works and emergency services, from proceeding on the length of the A4042 trunk road described in the Schedule to this Notice. The alternative route is also described in the Schedule to this Notice;

ii) prohibit all cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A4042 trunk road described in the Schedule to this Notice;

iii) impose 50 mph and 40 mph speed limits on the length of the A4042 trunk road described in the Schedule to this Notice;

iv) impose a 10 mph speed limit on the length of the A4042 trunk road described in the Schedule to this Notice. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order will come into force on 16 September 2026. The temporary prohibition and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to operate overnight from 20:00 hours on 16 September 2026 until 06:00 hours on 30 September 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**
**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro, Terfynau Cyflymder 50 mya, 40 mya a 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Cylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, Torfaen.

**Llwybrau Eraill**

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd mynd tua'r gogledd ar yr A4042 i System Gylchu Hardwick, tua'r dwyrain ar yr A40 i ymuno â'r A449 yn Rhaglan, tua'r de ar yr A449 i ymuno â'r M4 wrth gyffordd 24, tua'r gorllewin ar yr M4 i ymadael wrth gyffordd 25a i ailymuno â'r A4042.

I'r gwrthwyneb i draffig sy'n teithio tua'r gogledd.

**SCHEDULE**
**Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians, Temporary 50 mph, 40 mph and 10 mph Speed Limits and No Overtaking**

The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout to its junction with the circulatory carriageway of Court Farm Roundabout, at Pontypool, in Torfaen.

**Alternative Routes**

The alternative route for southbound traffic will be northbound on the A4042 to Hardwick Gyratory, eastbound on the A40 to join the A449 at Raglan. southbound on the A449 to join the M4 at junction 24, westbound on the M4 to exit at junction 25a to rejoin the A4042.

Vice versa for northbound traffic.